

Y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO4) CANLLAW I BERCHNOGION TAI





Cynnwys

Amdanom Ni	3
Beth yw'r Rhwymedigaeth Cwmniau Ynni? (ECO4)	4
Grantiau sydd ar gael	4
Cymhwyster HHCRO	5
Cymhwyster Hyblyg	6
Dull Tŷ Cyfan	8
Pam Inswleiddio?	9
Effeithlonrwydd Ynni	9
Gwres Canolog am y Tro Cyntaf – Nwy Prif Gyflenwad	10
Gwres Canolog am y Tro Cyntaf – Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer	11
Uwchraddio Boeler	13
Rheolyddion Gwresogi	13
Gwresogyddion Storio Cadw Gwres Uchel	14
Inswleiddio Mewnol Waliau	16
Inswleiddio Ystafell Do	18
Inswleiddio Waliau Ceudod	20
Inswleiddio Llofft	22
Inswleiddio Llawr Crog	23
Solar Ffotofoltaidd (PV)	24
Awyru	25



Amdanom Ni



Sefydlwyd Menai Heating yn wreiddiol yn 2001 fel cwmni gwasanaethau plymio a gwresogi. Roeddem ar y blaen o ran technolegau adnewyddadwy, gan ddechrau gosod solar thermal yn 2005 a gosod solar ffotofoltaidd, pypiau gwres a boeleri biomas yn y blynyddoedd wedyn. Wedi i ni ddarganfod y Cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yn 2015, newidiodd ein huchelgeisiau i wneud ein rhan i ddod â diwedd i dlodi tanwydd, i leihau ôl troed carbon y Deyrnas Unedig ac i ddarparu cartrefi cynhesach ar gyfer ein cwsmeriaid. Gweithiwn ar ran perchnogion tai, landlordiaid, cyngorau a thenantiaid i ddarparu mesurau gwresogi, a mesurau adnewyddadwy ac inswleiddio. Mae ein cyflogai, ein contractwyr a'n his gontractwyr i gyd wedi ymgymeryd â hyfforddiant o'r lefel uchaf er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu disgwyliadau ein cwsmeriaid. Am fwy o wybodaeth, gellir dod o hyd i'r holl achrediadau yng nghefn y llyfryn hwn.

Cwblheir yr holl fesurau i gydymffurfio'n llawn gyda'r fframwaith PAS 2035, yr arweiniad ECO4, a rheoliadau adeiladu.



Beth yw'r Rhwymedigaeth Cwmniau Ynni (ECO4)?

Mae'r Rhwymedigaeth Cwmniau Ynni (ECO) yn gynllun effeithlonrwydd ynni gan y Llywodraeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr ynni mwy ddarparu cyllid ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni yn y sector tai domestig (perchennog preswyl a rhentu preifat). Mae'r cynllun yn anelu i leihau allyriadau carbon ac i fynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy wella effeithlonrwydd cartrefi a lleihau biliau ynni.

Mae ECO yn ei bedwerydd cyfnod ar hyn o bryd (ECO4), cyfnod ddechreuodd yng Ngorffennaf 2022, sydd i redeg hyd Fawrth 2026. Mae'r pedwerydd cyfnod yn canolbwyntio ar gefnogi aelwydydd incwm isel ac agored i niwed, yn ogystal â'r rhai hynny sy'n byw mewn eiddo sy'n anoddach i'w trin, megis tai gyda waliau solet.

O dan y cynllun, mae gofyn i gwmniau ynni ddarparu cyllid ar gyfer ystod o fesurau effeithlonrwydd ynni, megis inswleiddio, gwresogi, uwchraddio gwresogi, a thechnolegau adnewyddadwy. Mae'r meini prawf cymhwyster yn amrywio yn dibynnu ar y math o fesur, y math o annedd, ac amgylchiadau trigolion yr aelwyd, sydd, yn gyffredinol, yn cynnwys ffactorau megis incwm, derbynwyr budd-daliadau, cyflyrau iechyd, a/neu defnydd ynni. Mae dwy ffordd i gymhwyso, drwy: gymhwyster hyblyg neu'r Rhwymedigaeth Lleihau Costau Gwresogi'r Cartref (HHCRO).

Rheoleiddir y cynllun gan Ofgem, rheoleiddiwr ynni'r Deyrnas Unedig, sy'n rhan o strategaeth ehangach y Llywodraeth i drosglwyddo i economi carbon-isel, i ddiwallu'r targedau newid hinsawdd ac i ddod â phobl sydd yn agored i niwed allan o dlodi tanwydd.



Grantiau sydd ar gael

- Pwmp gwres ffynhonnell aer
- Gwresogyddion storio cadw gwres uchel
- Insweiddio waliau ceudod
- Insweiddio mewnol waliau
- Insweiddio waliau allanol
- Insweiddio llofft
- Insweiddio ystafell do
- Solar ffotofoltaidd (PV)
- Insweiddio o dan y llawr
- Gwres canolog nwy prif gyflenwad
- Rheolyddion gwresogi clyfar
- Uwchraddiadau boeler
- Uwchraddiadau awyru

Cymhwyster HHCRO (y Rhwymedigaeth Lleihau Costau Gwresogi'r Cartref)

O dan y cynllun HHCRO, mae cyflenwyr ynni mwy yn rhwymedig i ddarparu cyllid ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni mewn aelwydydd cymwys. Mae'r mesurau hyn yn anelu i leihau'r gôst o wresogi cartrefi ac i wella effeithlonrwydd ynni.

Mae cymhwyster ar gyfer cyllid drwy'r HHCRO yn seiliedig ar unrhyw berson sy'n byw yn yr annedd yn derbyn un neu fwy o'r budd-daliadau cymhwyso canlynol:

- 1) Lwfansau ceisio gwaith sy'n gysylltiedig ag incwm (JSA)
- 2) Lwfansau cyflogaeth a chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm (ESA)
- 3) Cymhorthdal Incwm (IS)
- 4) Credyd Pensiwn Gwarantiedig (elfen credyd) (PCGC)
- 5) Credyd Treth Gwaith (WTC)
- 6) Credyd Treth Plant (CTC)
- 7) Credyd Cynhwysol (UC)
- 8) Budd-dal Tai
- 9) Credyd Cynilo Credyd Pensiwn (PCSC)



Ond, hyd yn oed os nad yw unrhyw berson sy'n byw'n yr annedd yn derbyn unrhyw un o'r budd-daliadau cymhwyso uchod, gallai'r deiliad barhau i gymhwyso ar gyfer y mesurau effeithlonrwydd ynni trwy'r cynllun cymhwysedd hyblyg.



Cymhwyster Hyblyg

Mae'r cynllun Cymhwyster Hyblyg (FLEX) yn ran o'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO4) yn y Deyrnas Unedig, sy'n galluogi awdurdodau lleol i adnabod aelwydydd sy'n gymwys ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni o dan y cynllun.

Gall yr awdurdodau lleol gyfeirio'r aelwydydd hyn wedyn at gyflenwyr ynni i dderbyn cyllid ar gyfer mesurau effeithlonrwydd.

Mae'r cynllun FLEX wedi ei ddylunio i fod yn hyblyg, gan alluogi awdurdodau lleol i ddiffinio eu meini prawf cymhwysedd eu hunain yn seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau lleol. Gall hyn gynnwys aelwydydd ar incwm isel, y rhai hynny sy'n byw mewn mathau penodol o eiddo, neu'r rhai hynny gyda chyflyrau iechyd sy'n gwaethygu o ganlyniad i fyw mewn cartref oer.

Gan ein bod wedi ein lleoli yng Ngogledd Cymru, y prif awdurdodau lleol rydym yn gweithio gyda hwy yw Cyngor Sir Ynys Môn a Cyngor Sir Gwynedd. Mae gan y ddau awdurdod lleol yma yr un broses gymhwys ar gyfer y llwybr cymhwyster hyblyg, sydd fel a ganlyn:



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL



Meini Prawf Cymhwysedd

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i eiddo fod yn eiddo domestig preifat gyda rhywun yn byw ynddo (naill ai cartrefi gyda pherchennog preswyl neu gartrefi yn y sector rhentu preifat). Mae'n rhaid i'r eiddo a'r aelwyd ymlynu i o leiaf un o'r tri llwybr sydd ar gael a amlinellir isod:

Llwybr 1: EPC/SAP bandiau D-G ar gyfer perchnogion preswyl a bandiau E-G i aelwydydd sector rhentu preifat gydag incwm gros o lai na £31,000. Mae'r cap yma'n berthnasol beth bynnag yw maint yr eiddo, y cyfansoddiad, neu'r rhanbarth.

Llwybr 2: EPC/SAP bandiau E-G ar gyfer aelwydydd perchnogion preswyl ac aelwydydd sector rhentu preifat sy'n cwrdd â chyfuniad o ddau o'r procsiaid a ganlyn:

Procsi 1) Cartrefi yng Nghymru sydd mewn Ardaloedd Cynnydd Ehangach Haen Is 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.

Procsi 2) Preswylwyr tai sy'n derbyn gostyngiad Treth Cyngor (y gostyngiad yn seiliedig ar incwm isel yn unig).

Procsi 3) Preswylwyr tai sy'n agored i niwed o ganlyniad i fyw mewn cartref oer fel y nodwyd gan arweiniad y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Dim ond un o'r rhestr ellir ei ddefnyddio, ac eithrio'r procsi 'incwm isel'.

Procsi 4) Preswylwydd tŷ yn derbyn cinio ysgol am ddim oherwydd incwm isel.

Procsi 5) Aelwyd sydd wedi eu cyfeirio i'r awdurdod lleol am gefnogaeth gan eu cyflenwr ynni neu Cyngor Ar Bobeth ('Citizen's Advice') am eu bod wedi eu nodi fel cael trafferth i dalu eu biliau trydan a nwy.

Llwybr 3: Aelwydydd EPC/SAP bandiau D-G gyda pherchennog preswyl ac aelwydydd bandiau E-G yn y sector rhentu preifat sydd wedi eu nodi gan eu meddyg neu feddyg teulu fel bod ar incwm isel ac yn agored i niwed, gyda phreswlydd gyda chyflwr iechyd cardiofasgwlaidd, anadlol, gwrthi-miwneidd neu â symudedd cyfyngedig.

* Noder na ellir defnyddio procsiaid 1 a 3 gyda'i gilydd.

* Noder fod EPC yn dalfyriad ar gyfer y Tystysgrifau Perfformiad Ynni

* Noder fod SAP yn dalfyriad ar gyfer y Weithdrefn Asesu Safonol

Gall yr awdurdodau lleol sy'n rhan o'r cynllun cymhwyster hyblyg fod â gwahanol feini prawf cymhwyster. Cyfeiriwch at eich awdurdod lleol eich hun ar gyfer gwybodaeth bellach, os gwelwch yn dda.

Y Dull Tŷ Cyfan

Mae'r Dull Tŷ Cyfan yn cyfeirio at strategaeth sy'n rhaid ei dilyn o dan ECO4 ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni, cynaladwyedd, a pherfformiad amgylcheddol cyffredinol adeilad preswyl, yn hytrach nac un elfen yn unig. Yn hytrach na chanolbwyntio ar gynnig mesurau unigol ar gyfer annedd, mae'r dull tŷ cyfan yn ystyried y cartref i gyd ac yn edrych ar bob mesur posibl y gallwn ei osod yn y cartref yn hytrach nac un mesur unigol. Mae egwyddorion allweddol yr Dull Tŷ Cyfan yn cynnwys:

Effeithlonrwydd Ynni

Mae'r dull tŷ cyfan yn pwysleisio ar leihau defnydd ynni trwy optimeiddio'r inswleiddio, selio aer, a systemau awyru. Mae hyn yn cynnwys gwella perfformiad amlen thermal yr adeilad, gan uwchraddio ffenestri a drysau, a defnyddio offer a goleuadau sy'n ynni-effeithlon.

Ansawdd Aer Dan Do

Agwedd hollbwysig o'r dull tŷ cyfan yw sicrhau ansawdd aer dan do da ar gyfer preswylwyr. Golyga hyn systemau awyru a hidlo priodol i gael gwared o lygryddion a rheoli lefelau lleithder i atal twf llwydni.

Integreiddio Ynni Adnewyddadwy

Mae'r dull tŷ cyfan yn annog integreiddiad technolegau ynni adnewyddadwy i leihau'r dibyniaeth ar danwyddau ffosil ac i leihau ôl troed carbon yr adeilad megis pypmiau gwres ffynhonnell aer a solar ffotofoltaidd.

Ein hagwedd ni

Pan mae un o'n syrfewyr cymwys yn cynnal asesiad, edrychwn ar bob mesur posibl mae eich cartref yn cymhwyso ar ei gyfer o dan y cynllun ECO4, ac yn gwneud popeth y gallwn i sicrhau fod yr holl fesurau hyn yn cael eu gosod, fod eich biliau gwresogi yn gostwng ac effeithlonrwydd eich cartref yn cynyddu.



Pam Inswleiddio?



- Gall inswleiddio leihau costau gwresogi ac oeri yn sylweddol trwy gadw'r cartref ar dymheredd cyson sydd hefyd yn gwneud y cartref yn fwy cyfforddus i fyw ynddo.
- Gall inswleiddio wella safon yr aer o dan do trwy leihau drafftiau a gollyngiadau aer.
- Gall inswleiddio helpu i atal lleithder a thwf llwydni trwy leihau anwedd.
- Gall inswleiddio gynyddu effeithlonrwydd ynni cyffredinol cartref, trwy leihau'r swm o allyriadau carbon a gynhyrchir, gan ei wneud yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.
- Gall inswleiddio hefyd gynyddu gwerth cyffredinol cartref.
- Gall inswleiddio helpu i leihau y swm o lwch ac alergenau sy'n mynd i mewn i'r cartref, gan greu amgylchedd byw iachach.
- Gall inswleiddio fod yn ddull fforddiadwy a chost-effeithiol i wella effeithlonrwydd ynni cartref.

I grynhoi, gall inswleiddio eich cartref ddod â llawer o fuddion megis arbedion ynni, cyfforddusrwydd, gwell safon aer o dan do, cynnydd yng ngwerth yr eiddo, buddion amgylcheddol, a mwy.

Mae'n gam pwysig i wneud cartref yn fwy ynni effeithiol a chyfforddus i fyw ynddo.

Effeithlonrwydd Ynni


Mae'r dulliau gorau ar gyfer codi sgorau ynni adeilad yn cynnwys::

- Inswleiddio'r waliau, y to a'r lloriau.
- Gosod ffenestri gwyrdr dwbl.
- Gosod gwresogi, goleuadau ac offer sy'n ynni-effeithlon.
- Gwella aerglosrwydd.
- Gosod systemau ynni adnewyddadwy megis paneli solar.
- Bod â digon o systemau awyru a reolir.

Mae'r buddion o godi sgorau ynni annedd yn cynnwys:

- Biliau ynni is ar gyfer y preswylwyr.
- Cynnydd mewn cyfforddusrwydd a gwell safon aer o dan do.
- Cynnydd yng ngwerth yr eiddo.
- Buddion amgylcheddol, megis lleihau allyriadau carbon.
- Cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac osgoi cosbau.
- Gwneud yr eiddo'n fwy deniadol i ddarpar brynwyr neu denantiaid.
- Gwella effeithlonrwydd ynni cyffredinol yr adeilad.
- Gwneud yr eiddo'n fwy cynaliadwy.

O dan y Cyllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni newydd, er mwyn i annedd fod yn gymwys ar gyfer unrhyw fesurau ynni effeithlon, mae'n rhaid i ni allu symud sgôr ynni'r annedd o'r sgorau ynni isel E, F neu G, i'r sgorau ynni uwch C neu B.



Gwres Canolog am y Tro Cyntaf - Nwy Prif Gyflenwad

Beth yw Gwres Canolog Nwy Prif Gyflenwad?

- Mae system wres canolog nwy prif gyflenwad, yn gyffredinol, yn foeler combi wedi'i gysylltu i'r gwasanaethau nwy prif gyflenwad yn y cyffiniau.
- Cysylltir y boeler combi wedyn i system rheiddiadur gwlyb y tu mewn i'r tŷ i ddarparu gwres.
- Cysylltir y boeler combi hefyd i unrhyw dapiau neu gawodydd i ddarparu dŵr poeth yn yr annedd (ar wahân i gawodydd trydan).
- Bydd eiddo mwy yn derbyn boeler arferol gyda silindr dŵr poeth.



Anheddau sy'n gymwys

- ✓ Anheddau wedi eu hadeiladu o garreg
- ✓ Anheddau a adeiladwyd yn ôl system
- ✓ Anheddau ffrâm bren
- ✓ Anheddau o frics solet
- ✓ Anheddau waliau ceudod

Rhagofynion

- ✓ I'r ceudod gael ei inswleiddio os yw'n eiddo wedi ei adeiladu o waliau ceudod
- ✓ Pob to i gael ei inswleiddio os nad ydynt wedi eu hinswleiddio
- ✓ Sgôr ynni isel (E, F, G)

CWESTIYNAU CYFFREDIN

1 | Beth yw'r diweddariad deddfwriaeth 'Approved Document L' o 2022?

Fel rhan o'r 'Approved Document L', bydd yn rhaid i bob system wresogi gofod gwlyb newydd, neu rai sy'n cael eu hamnewid, mewn anheddau domestig gael eu dylunio gyda gofyniad am uchafswm tymheredd llif o 55°C. Ystyrir bod hyn yn bwysig ar gyfer effeithlonrwydd y system. Golygai hyn fod unrhyw systemau boeleri nwy neu olew newydd a osodir â rheiddiaduron o'r un maint â phwmp gwres ffynhonnell aer.

2 | Will my cylinder be removed?

Yes, the cylinder will be removed as the new boiler will also heat hot water.

Gwres Canolog am y Tro Cyntaf – Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer

Beth yw Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer?

- Mae pwmp gwres, yn ei hanfod, yn foeler heb fflw. Mae'n cynhesu dŵr ac yn ei bwmpio o gwmpas eich rheiddiaduron. Yn ogystal â chynhesu eich tŷ, mae pwmp gwres ffynhonnell aer hefyd yn cynhesu eich dŵr poeth, yn yr un modd y byddai boeler nwy neu olew traddodiadol yn ei wneud.
- Nid yw pwmp gwres ffynhonnell aer yn cynhyrchu unrhyw CO₂, felly mae'n cael ei ystyried yn gyfeillgar i'r amgylchfyd ac yn ddewis amgen adnewyddadwy i gynhesu eich cartref a'ch dŵr.
- Mae pypiau gwres, fel boeleri, yn ddyfeisiau all gynhesu eich cartref a'ch dŵr poeth. Mae pypiau gwres yn gweithio trwy symud gwres o fannau oer (y tu allan) i fannau cynhesach (eich cartref), hyd yn oed pan mae hi'n oer y tu allan.
- Maent yn defnyddio nwy arbennig, a elwir yn "oerydd", gyda thrydan i wneud i hyn ddigwydd.
- Mae'r pwmp gwres yn defnyddio trydan i wneud i'r nwy oerydd basio drwy gywasgwr, sy'n gwasgu'r nwy ac yn ei wneud yn boethach. Mae'r nwy poeth yma yn mynd i'r cyfnewidydd gwres y tu mewn i'ch cartref, ble mae'n rhoi ei wres allan ac yn twymo eich cartref.
- Wrth iddo roi'r gwres allan, mae'r nwy yn oeri ychydig. Wedyn, mae'n cael ehangu, sy'n ei wneud yn oerach fyth. Nawr mae'n oer, gall amsugno mwy o wres o'r tu allan a dechrau'r broses unwaith eto.
- Defnyddir y gwres mae'r pwmp gwres yn ei gludo i'r cyfnewidydd gwres i wresogi eich cartref. Mae'n parhau i ailadrodd y broses hon, gan gymryd gwres o'r tu allan a'i drosglwyddo i du mewn eich cartref.




Anheddau sy'n gymwys

- ✓ Anheddau wedi eu hadeiladu o garreg
- ✓ Anheddau a adeiladwyd yn ôl system
- ✓ Anheddau ffrâm bren
- ✓ Anheddau o frics solet
- ✓ Anheddau waliau ceudod

Rhagofynion

- ✓ Bydd angen inswleiddio'r waliau ceudod os yw'r eiddo wedi ei adeiladu o waliau ceudod.
- ✓ Bydd angen inswleiddio pob to os nad ydynt wedi eu hinswleiddio.
- ✓ Sgôr ynni isel (E, F, G)
- ✓ Os nad yw'r annedd yn gymwys ar gyfer gwres canolog nwy.



CWESTIYNAU CYFFREDIN

1 | A yw pypmiau gwres ffynhonnell aer yn effeithlon?

Mesurir effeithlonrwydd pwmp gwres ffynhonnell aer yn ôl ei gyfernod perfformiad (COP). Y cyfernod perfformiad yw cymhareb yr allbwn gwres i'r mewnbwn gwres, ac mae'n amrywio yn dibynnu ar y tymheredd y tu allan.

Golygai gyfernod perfformiad o 3.5 fod 3.5 uned o ynni gwres yn cael eu cynhyrchu am bob 1 uned o drydan a dreulir. Cyfernod perfformiad ein pypmiau gwres ffynhonnell aer yw 3.5.

2 | A yw'n cynhesu fy nŵr poeth hefyd?

Gellir cysylltu pwmp gwres ffynhonnell aer i silindr dŵr poeth i gynhesu'r dŵr ar gyfer defnydd domestig. Gellir cynhesu'r silindr hefyd trwy ddefnyddio trydan yn uniongyrchol os yw'r pwmp gwres ffynhonnell aer wedi ei droi i ffwrdd.

3 | Pam fydd angen rheiddiaduron mawr arnaf?

Mae angen i reiddiaduron ar gyfer pwmp gwres ffynhonnell aer fod ddwy neu dair gwaith yn fwy na'r rhai hynny ar gyfer systemau gwresogi traddodiadol megis nwy gan fod pypmiau gwres ffynhonnell aer yn rhedeg ar dymheredd llawer is o 55°C, ac felly mae angen mwy o arwynebedd i drosglwyddo'r un faint o wres i'r ystafell.

4 | Beth yw'r diweddariad deddfwriaeth 'Approved Document L' 2022?

Fel rhan o'r 'Approved Document L', bydd yn rhaid i bob system wresogi gofod gwlyb newydd mewn anheddau domestig gael eu dylunio gyda gofyniad am uchafswm tymheredd llif o 55°C. Ystyrir bod hyn yn bwysig ar gyfer effeithlonrwydd y system. Golygai hyn fod unrhyw systemau boeleri nwy neu olew newydd a osodir â rheiddiaduron o'r un maint â pwmp gwres ffynhonnell aer.

5 | A yw'n dod gyda gwarant?

Daw'r pwmp gwres ffynhonnell aer gyda gwarant saith mlynedd gan y gwneuthurwyr a gwarant marc ansawdd o ddwy flynedd.

Uwchraddiad Boeler

Beth yw uwchraddiad boeler?

- Gallwn hefyd gynnig uwchraddiadau boeler o dan y cynllun ECO4. Cynigir uwchraddiadau boeler i anheddiadau sydd â math aneffeithlon o foeler yn y cartref yn bresennol.
- Ar gyfer eiddo sydd mewn ardal nwy prif gyflenwad sydd â boeler aneffeithlon, maent yn gymwys ar gyfer boeler combi cyddwyso yn unig.
- Ar gyfer eiddo sydd y tu allan i ardal nwy prif gyflenwad gydag LPG, BULK LPG, Olew neu foeler cefn yn bresennol, maent yn gymwys ar gyfer pwmp gwres ffynhonnell aer yn unig.
- Y mathau o foeleri a ystyrir ar gyfer uwchraddiad o dan y canllawiau ECO4 yw:
 - 1) Boeleri nwy sydd ddim yn cyddwysu
 - 2) Boeleri LPG sydd ddim yn cyddwysu a rhai sydd yn cyddwysu
 - 3) Boeleri Bulk LPG sydd ddim yn cyddwysu a rhai sydd yn cyddwysu
 - 4) Boeleri olew sydd ddim yn cyddwysu a rhai sydd yn cyddwysu
 - 5) Boeleri cefn

Os oes gan eich heiddo un o'r uchod, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer uwchraddiad. Gallai'r uwchraddiadau ar gyfer un o'r uchod fod yn:

- Boeler nwy newydd yn lle hen un
- Pwmp gwres ffynhonnell aer

Rheolyddion Gwresogi

Mae amryw o reolyddion gwresogi y gallwn eu cynnig o dan ECO4 ynghyd â gosod mesurau penodol eraill. Y rheolyddion gwresogi hyn yw:

- Rhaglennydd clyfar
- Falfiau rheoli thermostatig (TRV)
- Digollediad tywydd
- Rheolaeth amser a thymheredd ardal



COMMON QUESTIONS

1 | Can I control them on my phone?

All our controls are online compatible, and our installers are happy to set this up for you.

2 | What is a smart programmer for central heating?

A smart programmer allows remote control of heating schedules and temperatures via smartphone or computer.

3 | Can I integrate smart programmers, thermostats, TRVs, and TTZCs together?

Yes, many systems are compatible, creating a comprehensive, efficient, and interconnected heating setup.

Gwresogyddion Storio Cadw Gwres Uchel

Beth yw Gwresogyddion Storio Cadw Gwres Uchel?

- Mae gwresogyddion storio cadw gwres uchel yn gweithio trwy ddefnyddio trydan i gynhesu'r briciau seramig sydd y tu mewn i'r gwresogyddion, yn ystod oriau allfrig, pan mae'r prisiau'n is.
- Unwaith mae'r briciau wedi cynhesu, maent yn dal y gwres ac yn ei ryddhau i mewn i'r ystafell yn raddol yn ystod y dydd, gan ddarparu ffynhonnell gyson o wres.
- Gellir rheoli'r gwresogyddion gyda thermostat, sy'n eich galluogi i osod y tymheredd a ddymunir ac i amseru pryd rydych am i'r gwresogyddion droi ymlaen ac i ffwrdd.
- Mae gan wresogyddion storio cadw gwres uchel Elnur hefyd nodwedd o'r enw'r "boost mode", sy'n eich galluogi i gynhesu'r ystafell yn sydyn pan rydych ei angen.
- Maent yn fwy effeithlon na gwresogyddion trydan traddodiadol gan eu bod yn defnyddio'r tariffau trydan oriau allfrig. Maent hefyd yn effeithlon iawn am storio gwres yn ystod y nos i'w ryddhau yn ystod y dydd.



Y broses osod ar gyfer gwresogyddion storio

- I ddechrau, mae'n rhaid i'r gosodwyr dynnu unrhyw hen systemau gwresogi allan o'r annedd.
- Mae pob man byw a chyntedd/landin i gael gwresogyddion storio wedi eu gosod ynddynt.
- Os nad oes systemau bwydo yn bresennol yn y manau hyn ar gyfer gwresogyddion storio, mae'n rhaid i'r gosodwyr osod systemau bwydo newydd, wedi eu gosod ar y wal ac o fewn gorchudd ('trunking') i'r lleoliadau newydd.
- Mae pob ystafell wely wedyn i gael gwresogyddion trydanol a ellir eu plygio i mewn wedi eu gosod ar y waliau.

Anheddau sy'n gymwys

- ✓ Stone built dwellings
- ✓ System built dwellings
- ✓ Timber frame dwellings
- ✓ Solid brick dwellings
- ✓ Cavity built dwellings
- ✓ Flats
- ✓ Maisonettes
- ✓ Dwellings where a heat pump would not fit

Rhagofynion

- ✓ Dim ond i gael eu gosod os na all yr eiddo gael ffurf o wres canolog o un o'r mesurau uchod
- ✓ Sgôr ynni isel (E, F, G)
- ✓ Mae angen i'r annedd fod ar y tariff allfrig i dderbyn tariff allfrig
- ✓ Mae pob to i gael ei inswleiddio os nad yw wedi ei inswleiddio
- ✓ Waliau ceudod i gael eu hinswleiddio os yn bresennol ac heb eu hinswleiddio



CWESTIYNAU CYFFREDIN

1 | A ellir eu troi i ffwrdd?

Gellir, gellir troi'r gwresogyddion storio cadw gwres uchel i ffwrdd.

2 | A yw'n dod gyda gwarant?

Mae gwresogyddion storio cadw gwres uchel yn dod gyda gwarant marc ansawdd o ddwy flynedd, yn ogystal â gwarant 5 mlynedd can y gwneuthurwr.

3 | I have been told I qualify for an air source heat pump. But, I want storage heaters. Is this possible?

Unfortunately, if a dwelling qualifies for an air source heat pump, we can't install storage heaters.



Inswleiddio Mewnol Wal


Beth yw Inswleiddio Mewnol Wal?

- Mae inswleiddio mewnol wal yn system inswleiddio sy'n golygu inswleiddio holl waliau allanol annedd, ar yr ochr i mewn.
- Mae'n rhaid i holl waliau allanol annedd gael eu hinswleiddio gyda'r system SWIP, ar wahân i waliau allanol mewn ystafelloedd gwlyb (ceginau, ystafelloedd ymolchi, ystafelloedd aml-bwrpas, a thoiledau).
- Oherwydd anymarferoldeb ceisio inswleiddio ystafelloedd gwlyb, nid ydynt yn cael eu hinswleiddio. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni felly osod fffaniau DMEV mewn ystafelloedd gwlyb a phrofi y gallwn gynhesu'r ystafell i 18°C pan mae rhywun ynddi.



Mae'r broses o osod y system inswleiddio mewnol waliau SWIP yn cynnwys:

- Gosod estyll wedi'u hinswleiddio i ochr i mewn y wal allanol.
- Gosod slab inswleiddio gwlân gwyrdr mwynol rhwng yr estyll wedi'u hinswleiddio.
- Gosod rhwystr rheoli anwedd ar draws yr inswleiddiwr a'r estyll.
- Gosod bwrdd plastr ar ben y rhwystr rheoli anwedd.
- Darparu gorffeniad plastr i'r wal bwrdd plastr.
- Gosod unrhyw waith pren sydd ei angen i'r waliau sydd wedi'u trin.



Anheddau sy'n gymwys

- ✓ Anheddau wedi eu hadeiladu o garreg
- ✓ Anheddau a adeiladwyd yn ôl system
- ✓ Anheddau ffrâm bren
- ✓ Anheddau o frics solet
- ✓ ??

Pre requirements

- ✓ Dim arwyddion o leithder neu damprwydd gormodol
- ✓ Dim arwyddion o unrhyw symudiad strwythurol
- ✓ I fod o adeiladwaith gadarn
- ✓ Sgôr ynni isel (E, F, G)
- ✓ Awyru yn unol â'r arweiniad PAS 2035



COMMON QUESTIONS

1 | Beth yw trwch yr inswleiddiwr?

Mae'r cynnyrch gorffenedig yn cymryd oddeutu 100mm oddi-ar y wal. Mewn rhai achosion, gallwn denuo'r inswleiddiwr os yw'r inswleiddiwr trwchus yn achosi problemau, e.e. wrth agor a chau drysau.

2 | Beth sy'n cael ei gynnwys?

Byddwn yn rhoi gorffeniad wedi'i blastro i'r holl waliau sydd wedi eu trin. Byddwn yn ailosod neu'n amnewid unrhywbeth sydd wedi ei dynnu allan e.e. byrddau sgyrtin, silffoedd ffenestri, trydan, plymio. Ni fyddwn yn amnewid cilfwadau fel arfer, a bydd silffoedd ffenestri'n cael eu hamnewid am rai MDF yn unig.

3 | Beth os nad wyf eisiau gwneud un ystafell?

Mae'n rhaid inswleiddio pob ystafell breswyladwy o fewn yr annedd. Yr unig ystafelloedd sydd wedi'u heithrio yw ystafelloedd gwlyb.

4 | A yw'n dod gyda gwarant?

Mae inswleiddio mewnol wal yn dod gyda gwarant amddiffyniad marc ansawdd 25 mlynedd.

5 | What happens to my bathroom and kitchen?

All wet rooms do not get insulated during the install process. All wet rooms will need extractor fans installed and we will need to evidence that we can heat these rooms up to 18°C

Inswleiddio Ystafell Do


Beth yw Inswleiddio Ystafell Do?

- Mae inswleiddio ystafell do yn cynnwys inswleiddio llawr uchaf adeilad sydd â dros 50% o'i waliau bychain ('dwarf walls') o dan 1.8m. Mae inswleiddio ystafelloed to yn cynnwys inswleiddio'r llethrau, y waliau bychain, y talcen, gwahanfuriau, nenfydau gwastad a gofodau gweddilliol ystafell do gymwys.
- Y system inswleiddio a ddefnyddir yw'r system ystafell do SWIP.
- Mae'n rhaid i holl elfennau allanol yr ystafell do gael eu hinswleiddio, ar wahân i elfennau allanol ystafelloedd gwlyb.
- Oherwydd anymarferoldeb ceisio inswleiddio ystafelloedd gwlyb, nid ydynt yn cael eu hinswleiddio. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni felly osod ffaniau DMEV mewn ystafelloedd gwlyb a phrofi y gallwn gynhesu'r ystafell i 18°C pan mae rhywun ynddi.



Mae'r broses osod ar gyfer system inswleiddio ystafell do yn cynnwys:

- Gosodir fyrddau plastr wedi'u hinswleiddio i'r trawstiau ar unrhyw lethrau sydd yn yr ystafell do ac wedyn eu plastro drostynt.
- Gosodir y system inswleiddio mewnol waliau SWIP i bob wal dalcen a'r gwahanfuriau.
- Pan mae'r elfen wal fychan yn wal bren, gosodir Rockwool i gefn y stydwaith mewn rhwyden.
- Pan mae'r elfen wal fychan yn wal garreg, defnyddir y system SWIP IWI i inswleiddio'r wal.
- Yn nenfwd gwastad ystafell do, gosodir inswleiddiwr Rockwool o fewn ardal wastad y nenfwd os oes digon o ofod cro pian.
- Byddwn yn rhoi bwrdd plastr wedi'i inswleiddio dros y nenfwd gwastad os nad oes digon o ofod cro pian ac wedyn yn plastro drosto.
- Byddwn yn gosod inswleiddiwr rhwng y distiau i loriau gofodau gweddilliol os oes gofodau gweddilliol yn bresennol.
- Bydd unrhyw waith pren yn cael ei dynnu allan ac yn cael ei anmewid (dim ond byrddau sgyrtin a silffoedd ffenestri) a bydd unrhyw waith plymio neu osodiadau trydan yn cael eu hadnewyddu.



Anheddau sy'n gymwys

- ✓ Stone built dwellings
- ✓ System built dwellings
- ✓ Timber frame dwellings
- ✓ Solid brick dwellings
- ✓ Cavity built dwellings
- ✓ Flats
- ✓ Maisonettes
- ✓ Houses
- ✓ Bungalows

Rhagofynion

- ✓ Dim arwyddion o symudiad strwythurol e.e. ymsuddiad
- ✓ Sgôr ynni isel (E, F, G)
- ✓ Awyru i gael ei osod gyda'r mesur hwn, yn unol ag arweiniad PAS 2035
- ✓ I'r waliau bychain arfaethedig yn yr ystafell do fod yn llai na 1.8m ar gyfer 50% o'r waliau bychain
- ✓ I fod â grisiau sefydlog i fyny i'r ystafell do




CWESTIYNAU CYFFREDIN

1 | Beth yw trwch yr inswleiddiwr?

100mm ar waliau talcen neu wahanfuriau, 100mm ar waliau bychain o garreg, 300mm ar stydwaith, 67mm ar y llethrau, 300mm mewn nenfwd gwastad os yw'n hygyrch, 67mm os nad yw'r to gwastad yn hygyrch, a 300mm mewn gofod cropian gweddilliol.

2 | Beth sy'n cael ei gynnwys?

Byddwn yn rhoi gorffeniad wedi'i blastro i'r holl waliau sydd wedi eu trin. Byddwn yn ailosod neu'n amnewid unrhywbeth sydd wedi ei dynnu allan e.e. byrddau sgyrtin, silffoedd ffenestri, trydan, plymio. Ni fyddwn yn amnewid cilfwadau fel arfer, a bydd silffoedd ffenestri'n cael eu hamnewid am rai MDF yn unig.



3 | Beth os nad wyf eisiau gwneud un ystafell?

Mae'n rhaid inswleiddio pob ystafell preswyladwy o fewn yr annedd. Yr unig ystafelloedd sydd wedi'u heithrio yw ystafelloedd gwlyb.

4 | A yw'n dod gyda gwarant?

Daw'r inswleiddio ystafell do gyda gwarant marc ansawdd 25 mlynedd.

Inswleiddio Wal Geudod

Beth yw Inswleiddio Wal Geudod?

- Gelwir y deunydd a ddefnyddir wrth inswleiddio wal geudod yn 'Therma beads'.
- Mae 'Therma beads' yn gleiniau bach tebyg i bolystyren sy'n cael eu pwmpio i mewn i'r ceudod rhwng y brics mewnol ac allanol mewn tŷ sydd wedi ei adeiladu o waliau ceudod.



Mae'r broses osod ar gyfer inswleiddio waliau ceudod yn cynnwys:

- Mae tyllau'n cael eu drillio i mewn i waliau allanol yr annedd (tua maint darn 10c).
- Wedyn, caiff y deunydd ei chwistrellu i mewn i'r tyllau hyn o dan bwysedd.
- Bydd y deunydd yn cael ei chwistrellu nes bydd wedi llewni'r ceudod i gyd (y gofod rhwng y brics mewnol ac allanol).
- Bydd y tyllau wedyn yn cael eu gorchuddio.




Anheddau sy'n gymwys

- ✓ Cavity built dwellings with empty cavities
- ✓ Cavity built extensions with empty cavities
- ✓ Cavity built flats
- ✓ Cavity built maisonettes

Rhagofynion

- ✓ Wedi eu hadeiladu â waliau ceudod
- ✓ Dim problemau presennol o unrhyw fath o damprwydd neu ddŵr yn dod i mewn
- ✓ I fod â DPC
- ✓ I fod â DPC sicr
- ✓ I fod â sgôr ynni isel (E, F, G)
- ✓ Awyru yn unol ag arweiniad PAS 2035



CWESTIYNAU CYFFREDIN

1 | A yw'n dod gyda gwarant?

Daw'r inswleiddio wal ceudod gyda gwarant CIGA 25 mlynedd

2 | Sut mae'n cael ei osod?

Cyn belled nad oes unrhyw broblemau yn bodoli eisioes gyda'r waliau, ni fydd inswleiddio waliau ceudod sydd wedi ei osod yn gywir yn achosi unrhyw broblemau.

3 | A fydd yn achosi lleithder neu lwydni?

Ni fydd inswleiddio waliau ceudod sydd wedi ei osod yn gywir yn achosi problem gyda lleithder neu lwydni. Os oes problem gyda lleithder neu lwydni yn eich adeilad eisioes mae'n bwysig delio â'r mater hwn cyn gosod inswleiddiwr.

4 | Rwyf wedi clywed straeon arswydus am inswleiddio waliau ceudod, a fydd hyn yn digwydd i mi?

Yn gyffredinol, mae'r straeon arswydus yr ydych yn clywed amdanynt yn cael eu hachosi gan yr hen fath o inswleiddiwr waliau ceudod sydd â gwead tebyg i inswleiddiwr llofft. Os byddai unrhyw ddŵr yn mynd i mewn i'r ceudod, byddai'r inswleiddiwr yn amsugno unrhyw wlybaniaeth ac yn achosi problemau tamprwydd yn fewnol.

5 | A fydd eich deunydd yn achosi problemau tamprwydd?

Nid oes gan 'Therma beads' unrhyw fath o briodoleddau amsugno. Os fyddai unrhyw ddŵr yn mynd i mewn i'r ceudod, byddai'n draenio trwy'r gleiniau i waelod y ceudod, yn union fel pe na bai'r gleiniau Therma yno.

Inswleiddio Llofft

Beth yw Inswleiddio Llofft?

- Mae inswleiddio llofft yn fath o inswleiddio sy'n cael ei osod mewn atig neu llofft adeilad i atal colli gwres drwy'r to.
- Yr inswleiddiwr a ddefnyddir yw Rockwool
- Gosodir yr inswleiddiwr ar ben llawr yr atig, rhwng y distiau, ac wedyn ei osod yn llorweddol ar draws yr haen gyntaf o inswleiddiwr.
- Mae hefyd yn bwysig i sicrhau bod awyru iawn yn yr atig i atal lleithder rhag casglu a llwydni rhag tyfu.
- Tueddwn i osod rhywle hyd at 400mm o inswleiddiwr. Mae'r maint yn ddibynnol ar beth sydd yno'n bresennol. Anelwn i gael tua 400mm o inswleiddiwr i fyny yno ar ddiwedd unrhyw waith.
- Efallai y bydd angen lagio neu inswleiddio unrhyw danciau, pibellau neu wifrau hefyd.



Anheddau sy'n gymwys

- ✓ Anheddau wedi eu hadeiladu o garreg
- ✓ Anheddau a adeiladwyd yn ôl system
- ✓ Anheddau ffrâm bren
- ✓ Anheddau o frics solet
- ✓ Anheddau waliau ceudod

Rhagofynion

- ✓ Inswleiddiwr llofft presennol i fod yn llai na 200mm
- ✓ ISgôr ynni isel (E, F, G)
- ✓ Dim rhywogaethau a warchodir yn y llofft
- ✓ Dim rhywogaethau peryglus yn y llofft e.e. gwenyn meirch yn y llofft
- ✓ I fod â ffurf mynediad sydd ddim yn sefydlog e.e. ystol
- ✓ Awyru yn unol ag arweiniad PAS 2035

CWESTIYNAU CYFFREDIN

1 | A allaf adael fy llofft wedi ei lorio?

Os ydych chi'n dymuno cael inswleiddio ychwanegol, bydd angen i chi dynnu'r lloriau a'u hail-osod wedi i ni osod yr inswleiddiwr llofft, gadael i ni ei osod ar ben y llawr, neu fe allwn geisio gosod y swm cywir o inswleiddiwr o dan y llawr sydd yno yn barod.

2 | A yw'n dod gyda gwarant?

Mae inswleiddio llofft yn dod gyda gwarant o ddwy flynedd.

3 | My loft is boarded, does it still need insulating?

Loft insulation would still be required to install in order to qualify for any heating grants


4 | Will I need to empty my loft before the install date?

We would like the loft cleared prior to the installers arrival. In cases where the occupier are unable to empty the loft due to personal reasons, the installers will empty on their behalf.

Inswleiddio Llawr Crog

Beth yw Inswleiddio Llawr Crog?

- Gosodir inswleiddiwr o dan y llawr ble mae digon o le o dan y llawr crog i'r gosodwr gael mynediad gyda'r inswleiddiwr.
- Gosodir yr inswleiddiwr rhwng y distiau llawr, gan ei ddal yn ei le gyda rhwyden sydd ynghlwm i'r distiau.



Aneddau sy'n gymwys

- ✓ Dwellings that have suspended floors covering over 50% of the property
- ✓ A minimum of 0.5m of crawlspace under the suspended floor
- ✓ Dwellings with uninsulated suspended floors

Pre requirements

- ✓ Dim inswleiddiwr i fod yn bresennol o dan y llawr
- ✓ I'r eiddo fod â llawr crog yn bresennol gyda gofod crogian digonol
- ✓ Sgôr ynni isel (E, F, G)
- ✓ Dim rhywogaethau peryglus yn bresennol e.e. gwenynod meirch.
- ✓ Awyru yn unol ag arweiniad PAS 2035

CWESTIYNAU CYFFREDIN

1 | Beth yw'r deunydd a ddefnyddir?
Defnyddir inswleiddiwr Rockwool.

2 | Inswleiddiwr o pa drwch ydych chi'n ei osod?
Mae hyn yn dibynnu ar drwch y dist llawr.

3 | A yw'n dod gyda gwarant?
Mae inswleiddio o dan y llawr yn dod gyda gwarant marc ansawdd 25 mlynedd.

Solar Ffotofoltaidd (PV)

Beth yw Solar Ffotofoltaidd (PV)?

- Mae system PV yn troi heulwen i mewn i drydan trwy ddefnyddio paneli solar a gwrthdröydd.
- Mae'r paneli solar yn amsugno'r heulwen ac yn ei droi i mewn i drydan DC.
- Mae'r gwrthdröydd yn troi'r trydan DC i mewn i drydan AC a ellir ei ddefnyddio yn yr annedd ar gyfer pa bynnag offer sy'n cael ei ddefnyddio ar y pryd.
- Mae'r system wedi ei chysylltu i'r grid trydanol ac mae unrhyw drydan dros ben yn cael ei fwydo yn ôl i mewn i'r grid.
- Mae'r system yn gweithredu drwy amsugno heulwen a'i droi i mewn i drydan defnyddiadwy



Anheddau sy'n gymwys

- ✓ Anheddau wedi eu hadeiladu o garreg
- ✓ Anheddau a adeiladwyd yn ôl system
- ✓ Anheddau ffrâm bren
- ✓ Anheddau o frics solet
- ✓ Anheddau waliau ceudod

Rhagofynion

- ✓ To mewn cyflwr da
- ✓ I fod â ffurf trydanol o wresogaeth yn bresennol yn yr annedd (os ydym yn gosod un, mae hwnnw yn gymwys hefyd).
- ✓ Bod â sgôr ynni isel (E, F, G)

Awyru

Mae angen awyru mewn annedd ble mae unrhyw fath o fesur deunydd yn cael ei osod (inswleiddio mewnol waliau, inswleiddio llofft, inswleiddio ystafell do, inswleiddio to gwastad, inswleiddio o dan y llawr, ac inswleiddio waliau ceudod).

Pan osodir unrhyw fath o fesur deunydd, gall newid hydredded yr annedd ac fe allai wahodd materion i godi fel canlriad. Y prif faterion o bryder yw:

- Cyflwyno pontio thermal ('thermal bridging') sy'n gallu arwain i ffurfio mannau oer.
- Llwydni ac anwedd yn ffurfio
- Lleihau faint o aer ffres sy'n dod i mewn i'r annedd, sy'n lleihau faint o anwedd dŵr sy'n cael ei allyrru o'r adeilad
- Aer y tu mewn o safon isel

Wrth osod unrhyw fesur deunydd, mae'n rhaid i ni edrych i mewn i'r agweddau awyru a ganlyn:





Awyru Cefndirol

Mae awyru cefndirol yn system awyru tŷ cyfan sy'n caniatáu cyflwyno aer ffres o'r tu allan i mewn i ystafell breswyladwy heb agored ffenestr. Y pwrpas: I dynnu aer dan do diflas allan a'i gyfnewid am aer ffres o'r tu allan.

Cyflawnir hyn drwy osod fentiau diferu ('trickle vents') mewn ffenestri neu fentiau agoradwy mewn waliau allanol ym mhob ystafell breswyladwy mewn annedd (ystafelloedd gwely, ystafelloedd bwyta, ystafelloedd byw, stydis a.y.y.b.).

I gefnogi hyn, bydd angen torriadau i waelod pob drws mewnol sy'n arwain o ystafelloedd preswyladwy. Bernir fod y torriad yn ddigonol os yw'n 10mm neu fwy (gyda rhai eithriadau).

Awyru Hylogi

Mae fentiau aer hylogi (fentiau craidd) yn darparu cyflenwad parhaol (ni ellir eu cau) o aer hylogi i ystafelloedd sy'n cynnwys offer llosgi tanwydd sydd ddim wedi eu selio o'r ystafell ('room-sealed'). Yr ystafelloedd sydd angen awyru hylogi yw'r ystafelloedd hynny gydag un o'r canlynol yn cael ei ddefnyddio/allai gael ei ddefnyddio:

- Llefydd tân agored (mae maint fent aer yn dibynnu ar y 'throat cross' – ardal adrannol o'r fflw: 50%)
- Llefydd tân wedi'u cau sydd dros 5kW (byddai maint y fent yn 2.3cm x 2.3cm ar gyfer pob kW dros 5kW)
- Tanau nwy dros 7kW (byddai maint y fent yn 2.3cm x 2.3cm ar gyfer pob kW dros 7kW)
- Rayburn neu Aga

Awyru Llwyrawyru

Awyru llwyrawyru yw awyru â reolir â llaw mewn ystafelloedd neu ofodau ar gyfradd gymharol uchel i wanhau'r llygryddion ac/neu anwedd dŵr yn sydyn ac fe allai gael ei ddarparu trwy ddulliau naturiol (er enghraifft ffenestr sy'n agor) neu drwy ddull mecanyddol (er enghraifft ffan). Bydd llawer o anheddau yn pasio ar yr agwedd hon o awyru. Mewn rhai achosion, bydd rhaid gosod ffaniau echdynnu mewn ystafelloedd preswyladwy ble nad oes ffenestri sy'n agor.

Awyru Echdynnu

Dylid darparu awyru echdynnu i du allan anedd ym mhob ystafell wlyb i echdynnu aer llaith neu aer diflas o'r ystafell i du allan yr adeilad. Mae ystafelloedd gwlyb yn cynnwys y gofodau canlynol:

- Ceginau
- Ystafelloedd aml-ddefnydd
- Ystafelloedd ymolchi
- Toiledau heb ffenestri sy'n agor

Pan yn gosod unrhyw fath o fesur deunydd mewn eiddo, os nad oes gan yr eiddo ffaniau echdynnu yn yr ystafelloedd gwlyb, mae'n rhaid i ni eu gosod er mwyn symud ymlaen gyda'r prosiect.

Y ddau fath o ffaniau echdynnu a ddefnyddir gyda phrosiectau gosod mesurau deunydd yw awyru echdynnu ysbeidiol (IEV) ac echdynnu mecanyddol datganolog (DMEV).

Pan yn gosod inswleiddio mewnol wal, caiff ystafelloedd gwlyb eu heithrio o gael eu hinswleiddio oherwydd anymarferoldeb tynnu unedau cwpwrdd sydd wedi'u gosod er mwyn gosod y systemau inswleiddio. Ar gyfer ystafelloedd gwlyb, mae'n rhaid i ni felly:

- Sicrhau y gellir cynhesu'r ystafell i 18°C pan mae rhywun ynddi
- Gosod DMEV ym mhob un o ystafelloedd gwlyb yr eiddo

Prawf Pulse

Mae'r prawf Pulse yn ddull i brofi aerglosrwydd i brofi athreiddedd aer annedd gan ddefnyddio aer cywasgedig. Mae'r system brofi Pulse yn cynnwys derbynydd aer ac uned ffroenell, gydag uned cywasgu aer a sgrîn reoli. Mae athreiddedd aer y tŷ yn asesu faint mae tŷ yn ei ollwng. Pan gynhelir prawf mewn annedd, os yw'r lefel athreiddedd aer dros 5m³/m²h, golygai fod athreiddedd yr annedd yn ddigonol fel nad oes angen gosod fentiau diferu a thorri gwaelod drysau pan y cynnig gosod mesurau deunydd o dan ECO.

Sut mae'r prawf yn cael ei wneud?

- Dygir offer Pulse i'r adeilad sydd angen ei brofi. Mae'n hawdd i'w gario ac â'r holl rannau angenrheidiol.
- Gosodir yr offer Pulse a llenwi'r derbynydd aer gydag aer cywasgedig trwy ddefnyddio'r cywasgydd. Bydd y derbynydd aer hwn yn gwasgeddu'r adeilad ac yn datgelu unrhyw ollyngiadau.
- Cyfrifir gyfaint yr adeilad a'i arwynebau i gyfrifo cyfradd gollyngiad aer ac athreiddedd aer yr adeilad.
- Y prawf Pulse yn cychwyn. Bydd y profwr Pulse yn rhyddhau aer i mewn i'r adeilad, a bydd synhwyrddion yn mesur y gwahaniaethau gwasgedd a chyfradd y llif aer.
- Dangosir y canlyniadau ar yr uned reoli. Bydd y prawf yn darparu gwybodaeth am aerglosrwydd yr adeilad a faint o aer sy'n gollwng drwyddo.
- Cynhyrchir adroddiad i'w ddefnyddio fel tystiolaeth ategol i gwrdd â safonau awyru penodol a ddilynr gydag ECO4.



Darperir y llyfryn hwn i roi dealltwriaeth sylfaenol i'r cwsmer o'r math o fesurau y gall tai ac unigolion fod yn gymwys i'w derbyn, ond nid yw'n sicr nes bod asesiad cychwynnol wedi ei gynnal gan syrfëwr cymwys.

Sganiwch i wneud cais

